Annwyl riant / gwarcheidwad,

Newidiadau i olrhain cysylltiadau a hunanynysu o fis Medi eleni

Gobeithio eich bod chi a'ch plentyn wedi mwynhau gwyliau'r haf.

Wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol, mae nifer o drefniadau newydd ar waith ar gyfer yr adeg pan fydd rhywun yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19. Mae'r newidiadau hyn yn bosibl yn sgil y rhaglen frechu a'r lleihad sylweddol mewn niferoedd sy'n mynd i'r ysbyty ac yn dioddef salwch difrifol oherwydd COVID-19 dros y misoedd diwethaf.

Os yw eich plentyn yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19, gan ddefnyddio prawf PCR, bydd Profi, Olrhain, Datgelu (TTP) y GIG yn cysylltu â chi gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyr pan archebwyd y prawf PCR. Byddant yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u llunio i geisio dod o hyd i gysylltiadau agos eich plentyn, ac am fanylion cysylltu - os gwyddoch y rhain - ar gyfer yr unigolyn/unigolion neu eu rhieni/gwarcheidwaid. Yna bydd TTP yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Os yw eich plentyn yn derbyn canlyniad positif i brawf COVID-19 trwy ddefnyddio prawf llif unffordd cyflym LFD, bydd gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) y GIG yn cysylltu â chi gan ddefnyddi'r manylion sy'n cael eu darparu pan fydd y canlyniadau'n cael eu mewngofnodi www.gov.uk/report-covid19-result. Bydd TTP yn gofyn cwestiynau sydd wedi'u llunio i geisio dod o hyd i gysylltiadau agos diweddar eich plentyn, ac am fanylion cysylltu - os gwyddoch y rhain - ar gyfer yr unigolyn/unigolion neu eu rhieni/gwarcheidwaid. Yna bydd TTP yn cysylltu â'r cysylltiadau agos hyn i ddarparu cyfarwyddiadau neu gyngor.

Mae'n hanfodol fod unrhyw unigolyn sy'n cynnal prawf LFD, boed yn rheolaidd neu unwaith yn unig, yn cofnodi pob un canlyniad LFD, boed hwnnw'n bositif, yn negatif neu'n annilys, er mwyn caniatáu TTP i olrhain cysylltiadau.

Gall unrhyw un o unrhyw oed gynnal profion LFD yn rheolaidd, a byddech yn eich annog i wneud hynny. Argymhellir eich bod yn cael prawf ddwywaith yr wythnos. Mae'r pecynnau ar gael yn rhad ac am ddim o fferyllfeydd a llyfrgelloedd ar hyd a lled Powys, neu drwy archeb ar-lein sy'n cael ei hanfon yn syth i'ch cartref. Ewch i wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i weld manylion lle i gasglu pecynnau neu sut i archebu ar-lein pthb.nhs.wales/coronavirus/coronavirus-testing/no-symptoms/

Nid oes gofyn i'r rheiny sydd dan 18 oed neu wedi'u brechu'n llawn i hunanynysu os darganfyddir eu bod yn gysylltiadau agos. Ond cysylltir â nhw i roi gwybod iddyn nhw eu bod wedi mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi derbyn canlyniad positif i brawf. Byddant hefyd yn cael cynnig dau brawf PCR ynghyd â gwybodaeth a chyngor ar sut i leihau risgiau lledu'r feirws ymhellach. Os

darganfyddir bod eich plentyn yn gyswllt agos, gall barhau i fynd i'r ysgol oni bai ei fod yn datblygu symptomau neu TTP yn dweud wrtho am beidio â gwneud. Gofynnwn i chi barhau i roi gwybod i ni os yw eich plentyn yn derbyn prawf positif.

Os yw plentyn yn derbyn prawf positif, bydd angen i TTP hefyd gysylltu â'r ysgol i helpu i ddarganfod pwy yw'r cysylltiadau. Cadw nifer y cysylltiadau agos ymhlith eu cyd-ddisgyblion cyn ised â phosibl yw'r nod. Ond os oes patrwm o achosion, mae'n bosib y bydd TTP yn gofyn i ni anfon diweddariad i chi ar y sefyllfa a'ch atgoffa o'r prif gamau, gan gynnwys eich cynghori i wylio rhag ofn y gallai eich plentyn gael symptomau newydd, a chadw draw oddi wrth gyfeillion neu aelodau o'r teulu sy'n agored i niwed yn y tymor byr.

Rydym yn disgwyl y bydd yna achosion o COVID-19 ar draws eich cymuned dros yr wythnosau nesaf. Cofiwch barhau i fod ar eich gwyliadwriaeth am symptomau. Os ydych yn amheus, archebwch brawf PCR i'ch plentyn yn www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

Dylai unrhyw un â symptomau - peswch newydd parhaus, gwres neu dymheredd uchel, neu golli neu newid synnwyr arogli neu flasu - barhau i hunanynysu hyd nes bod canlyniad y prawf yn hysbys. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau hunanynysu yn www.gov.wales/self-isolation.

Rydym yn ymwybodol o anawsterau'r 18 mis diwethaf a'r aberth y mae pob teulu wedi gorfod gwneud. Diolch am bopeth a wnaethoch i gefnogi eich plentyn a'n hysgol.

Yn gywir

Mrs Caroline Harries

Dear parent/guardian,

Changes to contact tracing and self-isolation from this September

I hope you and your child have enjoyed the summer break.

As we return to school, there are some new arrangements in place when someone tests positive for COVID-19. These changes have been made possible by the vaccination programme and the significant reduction in numbers being hospitalised and suffering severe illness due to COVID-19 over recent months.

If your child tests positive for COVID-19 using a PCR test, NHS Test, Trace, Protect (TTP) will contact you, using the details provided when the PCR test was ordered. They will ask questions designed to identify recent close contacts of your child, and for contact details - if you know them - of the individual(s) or their parent/guardian. TTP will then get in touch with these close contacts to provide instructions or advice.

If your child tests positive for COVID-19 using a rapid lateral flow LFD test, NHS Test, Trace, Protect (TTP) will contact you, using the details that are provided when the results are logged on www.gov.uk/report-covid19-result. TTP will ask questions designed to identify recent close contacts of your child, and for contact details - if you know them - of the individual(s) or their parent/guardian. TTP will then get in touch with these close contacts to provide instructions or advice.

It is crucial that any person undertaking LFD testing, either regularly or on a one-off basis, records each and every LFD result, whether positive, negative or void, in order to allow TTP to undertake contact tracing.

Anybody of any age is able to undertake LFD testing on a regular basis, and we would encourage you to do so. It is recommended to take a test twice a week. Kits are freely available from pharmacies and libraries across Powys, or via an online order delivered direct to your home. Please see the Powys Teaching Health Board website for details on where to collect kits or how to order online pthb.nhs.wales/coronavirus/coronavirus-testing/no-symptoms/

Those who are under 18 or fully vaccinated are no longer required to self-isolate if they are identified as close contacts. But they will be contacted to let them know that they've been in close contact with someone who has tested positive. They will also be offered two PCR tests and provided with information and advice on how to minimise the risks of onward spread. If your child is identified as a close contact, they can still attend school unless they develop symptoms or are advised otherwise by TTP. Please continue to let us know if your child tests positive.

If a child tests positive, TTP will also need to contact the school to help identify who are contacts. The aim is to keep the number of close contacts amongst their classmates to a minimum. But if there is a pattern of cases TTP may ask us to

update you on the situation and remind you of key steps, including advising you to keep an eye out for new symptoms your child may develop, and to stay away from vulnerable family and friends in the short-term.

We do expect that there will be cases of COVID-19 across our community over the coming weeks. Please continue to be vigilant for symptoms. If you are in any doubt, order a PCR test for your child at www.gov.uk/get-coronavirus-test or by calling 119.

Anyone with symptoms - a new continuous cough, fever or high temperature or loss of, or change in, sense of smell or taste - should remain in self-isolation until the test result is known. You can find the latest information on self-isolation arrangements at www.gov.wales/self-isolation.

We recognise how difficult the past 18 months have been and the sacrifices that all families have had to make. Thank you for everything you have done to support your child and our school.

Yours sincerely

Mrs Caroline Harries